CfER 02/06/2014
Papur i'w nodi

Cynllun Busnes Gweinidogion Cymru
Llywodraeth Leol a Chymunedau Is-adran Cymunedau
Adroddiad diweddaru blynyddol ar weithredu'r Cynllun Busnes
Dyddiad: Ionawr 2013 i Ionawr 2014

Swyddog adrannol Arweiniol ar gyfer y Cynllun Busnes

Enw: Eleanor Marks

Gweithgaredd

Cymunedau yn Gyntaf a'r Sector Preifat

Rhaglen trechu tlodi yn seiliedig yn y gymuned yw Cymunedau yn Gyntaf (CF) gyda thri chanlyniad strategol: Cymunedau Iach, Cymunedau sy'n Dysgu a Chymunedau Ffyniannus.

Nod y rhaglen yw lleihau'r bwlch economaidd, iechyd, addysgol a'r bwlch sgiliau rhwng ein dinasyddion mwyaf difreintiedig a breintiedig drwy weithio gyda'r cymunedau mwyaf difreintiedig ledled Cymru. Mae dros £75 miliwn eisoes wedi'i roi i'r Rhaglen hyd at fis Mawrth 2015, a fydd yn darparu dros 900 o swyddi uniongyrchol ac yn cefnogi'r gwaith gwerthfawr yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig.

Mae CF yn gweithredu drwy 'Glystyrau'. Mae'r Clystyrau yn cynnwys y 10% Cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru (yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, 2011) sy'n hafal i 24% o boblogaeth Cymru.

Rhaid i Glystyrau gwblhau Cynllun Cyflawni sy'n gosod yr amcanion ar gyfer yr ardal leol, sut y bydd yr amcanion hyn yn cael eu cwblhau a sut y cânt eu mesur. Mae gan Glystyrau reolaeth i ymchwilio i anghenion eu hardal a'r ffordd orau o ddiwallu'r anghenion hynny. O ganlyniad, mae Clystyrau yn gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid wrth ddarparu eu gwaith, gan gynnwys sefydliadau trydydd sector, awdurdodau lleol ac asiantaethau a sefydliadau statudol gan gynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru, yr heddlu ac ysgolion.

Mae CF yn ceisio cynyddu nifer y sefydliadau Sector Preifat sy'n ymwneud â'r Rhaglen. Mae'r Sector Preifat yn cynnig amrywiaeth o fuddiannau gan gynnwys sgiliau rheoli busnes, cyngor ar gyflogadwyedd a recriwtio a chyfleoedd ar gyfer mentora a lleoliadau gwaith.

Enghreifftiau o CF a'r Sector Preifat:

- Grŵp y Co-operative yw'r Corff Cyflawni Arweiniol ar gyfer 4 o'r Clystyrau CF yn Sir Benfro, Rhyl a dau ym Mlaenau Gwent.

- Mae'r prosiect **'Siopau Gwag'** a arweinir gan Gymunedau yn Gyntaf Ynys Môn wedi arwain at greu 17 o fusnesau manwerthu newydd yng Nghaergybi, yn ogystal â rhoi cyfleoedd am swyddi i bobl ifanc leol sydd wedi'u hyfforddi mewn sgiliau i adnewyddu lleoliadau gwag. Mae siop trin gwallt, siop flodau, siop esgidiau, siop groser, siop chwaraeon, siop anifeiliaid anwes a chaffi yn rhai enghreifftiau o'r mentrau newydd sy'n ymddangos ar y stryd fawr wrth i entrepreneuriaid am y tro cyntaf fanteisio ar y cynllun sy'n eu galluogi i gael adeilad mewn safle da ar gyfer gweithredu am gostau isel. Mae'r Clwstwr wedi gweithio gyda pherchenogion y sector preifat o eiddo masnachol gwag i adael iddynt gael eu defnyddio gan y busnesau newydd yn gyfnewid am becyn a fyddai yn eu rhyddhau dros dro o'r baich o ardrethi busnes a rhoi gweddnewidiad i'w heiddo, am ddim. Yna cysylltodd CF â Gwasanaeth Cychwyn Busnes Llywodraeth Cymru, Menter a Busnes, i ganfod entrepreneuriaid y dyfodol sydd â diddordeb mewn agor gweithrediadau manwerthu, a gyda darparwyd dysgu lleol i ymgysylltu â hyfforddeion adeiladu i ddechrau ailwampio'r lleoliadau gwag. O fewn misoedd, dechreuodd y busnesau newydd cyntaf agor yng nghanol y dref ac mae'r broses wedi mynd o nerth i nerth ers hynny.

- **Rhwydwaith Entrepreneuriaeth Busnes Sir y Fflint:** Ei nod yw datblygu entrepreneuriaeth drwy ystod fwy hygyrch ac effeithiol o gyfleoedd, i ddatblygu sgiliau entrepreneuraidd drwy fentora, profiad gwaith a phrentisiaethau i bobl ifanc ym mhob sector. Cyflawnir hyn drwy gefnogi a galluogi pobl ifanc i gael gafael ar gyfleoedd yn Sir y Fflint ac o fewn hynny, meithrin entrepreneuriaid busnes gyda chymorth Rhwydwaith Entrepreneuriaeth Busnes Sir y Fflint. Ymysg y partneriaid mae Llywodraeth Cymru, Cyngor Sir y Fflint, Hicks Randles (darparwr Cychwyn Busnes), Banc Barclays, Prifysgol Glyndŵr, Coleg Cambria, Menter a Busnes, Busnesau Lleol a Gyrfa Cymru/Canolfan Byd Gwaith.

- Rydym yn gweithio gydag EST ar y prosiect Trechu Cartrefi Di-waith, fel rhan o'r strategaeth Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, i nodi meysydd lle gall cydweithio gryfhau cysylltiadau rhwng CF a'r sector preifat.

- Yn ardal HOV, mae cais i ariannu **Prosiect EFFECT**, ar y cyd rhwng EST a CF, sy'n ceisio hyrwyddo entrepreneuriaeth ac ysgogi busnesau newydd i gychwyn yn yr ardal drwy hwylusydd menter yn y gymuned a busnesau lleol. Mae'r prosiect hefyd yn ceisio ymgysylltu ag unigolion na fyddant fel arfer yn defnyddio gwasanaethau Llywodraeth Cymru. Mae'n cefnogi blaenoriaethau EST a CF o fynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd. Caiff y prosiect ei arwain gan Gyngor Merthyr Tudful ac mae'n gweithio gyda 8 clwstwr CF (3 ym Merthyr, 3 ym Mhen-y-bont a 2 yn Nhorfaen).

<u>Cynhwysiant Digidol</u>

Mae'r Uned Cynhwysiant Digidol (DIU) wedi datblygu perthnasau gyda sefydliadau'r sector preifat a oedd mewn sefyllfa dda i helpu mwy o bobl i fynd ar-lein. Ymysg y rhain oedd:

- British Telecom (BT): mae'r DIU a Chymunedau 2.0 (y rhaglen Cynhwysiant Digidol yr ydym yn goruchwylio) yn gweithio'n agos gyda BT i sicrhau bod eu gweithgareddau cynhwysiant digidol yn cyd-fynd â Chymunedau 2.0 i geisio gwneud y gorau o effaith. Cynrychiolir BT ar Fwrdd Cynghori Cymunedau 2.0.

- Swyddfa'r Post Cyf: ymgysylltu â swyddfeydd post i gyfeirio cwsmeriaid at ddosbarthiadau cynhwysiant digidol yn eu hardal. Cynrychiolir Swyddfa'r Post Cyf ar Fwrdd Rhaglen Cynhwysiant Digidol

- Asda: Mae DIU wedi bod yn trafod gydag Asda am ddarparu gweithgareddau cynhwysiant digidol mewn nifer o'u siopau yng Nghymru, gan gyrraedd pobl sydd wedi'u heithrio'n ddigidol na fyddant fel arfer yn mynd i leoliadau cymunedol traddodiadol fel llyfrgelloedd. Mae Cymunedau 2.0 wrthi'n gweithio i ddatblygu cynlluniau peilot yn y Coed Duon, Llanelli, Tonypandy, Rhyl a Wrecsam.

- Everything Everywhere (EE): i archwilio sut y gallant helpu i gefnogi cynhwysiant digidol.

- Cwmnïau Ailgylchu Cyfrifiaduron: Mae gan DIU berthynas â nifer o gwmnïau ailgylchu cyfrifiaduron yng Nghymru a all gefnogi'r agenda cynhwysiant digidol (e.e. Partners IT, Computer Recycling Ltd a MeTech Recycling) drwy ddarparu offer TGCh rhad i unigolion a sefydliadau cymunedol.

- Parhau i weithio gyda Rhwydwaith Digidol Cymru i sicrhau bod cynhwysiant digidol wedi'i integreiddio i waith meysydd eraill Cymru Ddigidol.

<u>Cynhwysiant Ariannol</u>

Mae gan Lywodraeth Cymru gontract gyda Gwasanaethau Cyhoeddus Northgate i reoli'r Gronfa Gymorth Ddewisol. Dyfarnwyd hyn ar ôl tendr agored ac mae Northgate yn rhedeg y contract mewn partneriaeth â'r Gronfa Deuluol a Chyngor Wrecsam. Fel rhan o'r broses gaffael, cynhaliodd Llywodraeth Cymru sesiwn ymwybyddiaeth ar gyfer cynigwyr posibl a chwmnïau â diddordeb yn y sector preifat yn ogystal â chynrychiolwyr o'r trydydd sector a'r sector statudol.

Cangen Datblygu Cynaliadwy a Bil Cenedlaethau'r Dyfodol

Adroddiad diweddar blynyddol ar weithredu'r Cynllun Busnes

Dyddiad: 01/01/13 i 01/01/14

Gweithgaredd: Siarter Datblygu Cynaliadwy

Mae'r Siarter Datblygu Cynaliadwy yn fenter wirfoddol lle mae sefydliadau yn ymrwymo i wneud datblygu cynaliadwy yn brif egwyddor drefniadol, ac i rannu arfer gorau. Dyma ein prif offeryn i ymgysylltu â sefydliadau o bob sector – preifat, cyhoeddus a thrydydd – ledled Cymru gydag arferion mwy cynaliadwy.

Mae'r Siarter yn cyflawni ymrwymiad yn y Cynllun Datblygu Cynaliadwy i annog a galluogi eraill i arddel datblygu cynaliadwy fel eu prif egwyddor drefniadol.

Mae'r cyd-destun cyffredinol a ddarparwyd gan y Cynllun Datblygu Cynaliadwy, ynghyd â chanllaw i'r rhai sy'n cymryd rhan, yn helpu i ganiatáu i sefydliadau yng Nghymru sicrhau bod eu gweithgareddau yn cyd-fynd â gweledigaeth i gael Cymru gynaliadwy, a bod yn glir am eu rôl wrth gyflawni hyn. Bydd hyn yn bwysig wrth i ni symud ymlaen gyda Bil Cenedlaethau'r Dyfodol.

Ar hyn o bryd, mae 166 o sefydliadau wedi cofrestru ar gyfer y Siarter, ac mae tua hanner ohonynt yn dod o'r sector preifat.

Un o brif ddibenion y rhwydwaith Siarter Datblygu Cynaliadwy yw sefydlu 'cymuned o arfer da', sy'n cynnig cymorth ac anogaeth wrth gyflawni buddion datblygu cynaliadwy.

Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn i sefydliadau sy'n llofnodi'r Siarter nodi:

a) y gweithgarwch maent yn ei wneud ar hyn o bryd wrth ddefnyddio datblygu cynaliadwy fel eu prif egwyddor drefniadol; a

b) pa gamau ychwanegol y byddant yn ymrwymo i'w gwneud o ganlyniad i gofrestru ar gyfer y Siarter.

Yn sgîl gwerthusiad diweddar o'r rhwydwaith a gynhaliwyd rhwng mis Chwefror a Mai 2013, cynigiwyd y dylid ei gryfhau a'i gwneud yn fwy rhagweithiol gyda lefelau cynyddol o gymorth, gwybodaeth ac adnoddau ar gyfer y rhai sydd wedi cofrestru a rhaglen o ddigwyddiadau trosglwyddo gwybodaeth ac ymweliadau. Rhannwyd hyn yn bedwar maes:

1. Dylid newid natur yr heriau fel bod rhwydwaith y Siarter yn dod yn rym ar gyfer newid go iawn ar lawr gwlad Yn hytrach na bod pob un o'r 160+ o'r rhai sydd wedi cofrestru yn gwneud her sefydliadol unigol, cynigir bod yr heriau yn cael eu rhannu a'u cyflawni ar y cyd gan glystyrau o sefydliadau fel bod yr heriau yn cael y budd mwyaf posibl. Anogir sefydliadau i gydweithio o ran themâu fel sgiliau, trechu tlodi, twf da a newid yn yr hinsawdd. Bydd hyn yn golygu bod y Siarter yn cyd-fynd yn agosach â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ac y gellir ei wneud fesul sector neu ranbarth. Bydd rhaglen o

ddigwyddiadau ac ymweliadau safle i gefnogi dysgu ac arfer gorau, a byddant yn benodol o ran sector ac yn rhai sy'n berthnasol ar draws sectorau.

2. Adnewyddu gwefannau'r Siarter fel bod adnoddau ar gael ar-lein. Bydd y wefan hefyd yn cyfeirio arfer da, canllawiau ac offer sydd eisoes yn bodoli. Bydd datblygu logo'r Siarter yn atgyfnerthu brand y Siarter.

3. Annog rhai sydd wedi cofrestru i gydweithio o amgylch y prif heriau cenhedlaeth a wynebir yng Nghymru. Bydd hyn yn symud sefydliadau i'r cyfeiriad teithio rydym yn ei gynnig ar gyfer Bil Cenedlaethau'r Dyfodol, annog integreiddio a chydweithio. Yn bwysicach, mae'n cydnabod mai dim ond drwy gydweithio y gellir mynd i'r afael â'r heriau a wynebir gan gymunedau, o newid yn yr hinsawdd, i greu swyddi a gwella iechyd ein cenedl.

4. Cryfhau gallu Cynnal Cymru i hwyluso rhyngweithio, rhannu gwybodaeth ac arfer gorau, a chydweithio'n annibynnol rhwng rhai sydd wedi cofrestru y tu allan i'r digwyddiad blynyddol.

Camau Nesaf

Ar 6 Tachwedd, arweiniodd y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi y gwaith o ail-lansio'r rhwydwaith Siarter mewn digwyddiad yng Nghaerdydd. Amlinellodd y Gweinidog bedair elfen y gweithredu a fydd yn ceisio gwella'r ffordd y mae'r rhwydwaith yn gweithio. Gofynnwyd i Cynnal Cymru, sy'n rheoli'r rhan fwyaf o waith cymorth rhwydwaith y Siarter, ymgynnull Grŵp Gorchwyl a Gorffen o rai sydd wedi cofrestru er mwyn datblygu'r syniadau a grëwyd yn y digwyddiad ym mis Tachwedd er mwyn pennu'r heriau cytûn y gofynnir i sefydliadau gofrestru ar eu cyfer. Bwriedir y bydd y rhain yn fach o ran nifer gyda'r nod o'u dechrau ym mis Ebrill 2014 gyda'r dyddiad cyflawni o fis Mawrth 2015.

Gweithgaredd: Bil Cenedlaethau'r Dyfodol – Datblygu Deddfwriaeth

Rhestr o gyfathrebiadau swyddogol ar y Bil

Ymgynghoriad Papur Gwyn – Cynigion ar gyfer deddfwriaeth ar Fil Datblygu Cynaliadwy Cynhaliwyd ymgynghoriad Papur Gwyn o 3 Rhagfyr 2012 i 4 Mawrth 2013	**3 Rhagfyr 2012**
Ymgynghoriad ar y Papur Gwyn Datblygu Cynaliadwy Cyhoeddi papur crynodeb ar gyfer ymgynghoriad Papur Gwyn a gynhaliwyd rhwng 3 Rhagfyr 2012 a 4 Mawrth 2013 a nodi prif themâu a ddaeth i'r amlwg. (gweler isod)	**15 Mai 2013**
Datganiad y Prif Weinidog ar y Rhaglen Ddeddfwriaethol Datganiad ysgrifenedig yn amlinellu Bil Cenedlaethau'r Dyfodol yn y	**16 Gorffennaf 2013**

rhaglen ddeddfwriaethol gan gynnwys newid enw (i Fil Cenedlaethau'r Dyfodol) a'r amserlen yn dilyn cyfnod yr adolygiad

Bil Cenedlaethau'r Dyfodol – Gwell Dewisiadau ar gyfer Gwell Dyfodol — **17 Gorffennaf 2013**

Datganiad Ysgrifenedig yn ehangu ar ddatganiad y Prif Weinidog ar y rhaglen ddeddfwriaethol a beth mae'n golygu i Fil Cenedlaethau'r Dyfodol

Bil Cenedlaethau'r Dyfodol – Sgyrsiau Cenedlaethol — **13 Tachwedd 2013**

Datganiad Ysgrifenedig yn cyflwyno cylch sgwrs cenedlaethol peilot – cyfnod o ymgysylltu â'r cyhoedd yng Nghymru a'r cyfleoedd i'w goresgyn.

Ymgynghoriad ar y Papur Gwyn

- Creodd Ymgynghoriad y Papur Gwyn gyfanswm o 473 o ymatebion, ac roedd y mwyafrif yn gefnogol o'r syniad i integreiddio datblygu cynaliadwy ymhellach.

- Cafwyd 10 ymateb gan fusnesau (Acclimatise, BSW Timber, Dŵr Cymru, Ecostudio, Evocati Limited, Llanhennock Property Management, y Grid Cenedlaethol, Scottish Power Renewables, Valero Energy Ltd, Wales & West Housing) a 22 o ymatebion gan gyrff proffesiynol a chymdeithasau (ACCA Cymru, Accounting for Sustainability Wales Forum (A4SW), Cymdeithas o Grwpiau RIGS Cymru, Sefydliad Siartredig Tai Cymru, Sefydliad Siartredig Cyllid ac Atebolrwydd Cyhoeddus, Country Land & Business Association, Environmental Association for Universities and Colleges, Undeb Ffermwyr Cymru, HEA Cymru Grŵp ESDGC, Sefydliad yr Archeolegwyr, Sefydliad o Beirianwyr Sifil Cymru, Landscape Institute Wales, North East Wales Regionally Important Geodiversity Sites Group, RICS Wales, Cymdeithas Frenhinol y Penseiri yng Nghymru, RTPI, Cymdeithas y Gyfraith, UK Environmental Law Association, Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru, Undeb Prifysgol a Cholegau, Welsh Further Education Purchasing Consortium, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru).

- Roedd grwpiau busnes yn gefnogol ar y cyfan o nodau'r Bil, gan nodi pwysigrwydd eglurder o ran beth fyddai angen ar gyfer cydymffurfio yn ogystal â dyhead i weld polisi nad oedd yn cyflwyno baich anghyfartal ar sefydliadau.

- Mae dull SD i fusnesau yn cefnogi'r economi; gwella effeithlonrwydd, lleihau defnydd, ac yn cefnogi iechyd a lles pobl a chymunedau.

Grŵp Cyfeirio a Chynghori Biliau

- Mae'r Grŵp Cyfeirio a Chynghori Biliau (BRAG) yn grŵp cyfeirio allanol dan arweiniad y Comisiynydd dros Ddyfodol Cynaliadwy Cymru, Peter Davies.

- Mae'n cynnwys sefydliadau cynrychioliadol o'r sector cyhoeddus, preifat, a'r trydydd sector ac mae ei aelodaeth yn cynnwys Cydffederasiwn Diwydiant Busnes Cymru (CBI).

- Mae BRAG wedi bod yn weithgar ers mis Medi 2012 ac yn cyfarfod yn fisol. Caiff gwybodaeth am y Bil ei darparu i'r grŵp gan swyddogion y Bil ar ffurf papurau neu gyflwyniadau. Mae'r CBI yn aelod allweddol o'r grŵp – maent yn derbyn pob papur ac fe gysylltir â nhw'n rheolaidd i annog eu hymgysylltiad â'r grŵp. Cafodd y CBI ei gynrychioli ar y grŵp pan ddaeth y Gweinidog i drafod eu safbwyntiau ar y Bil ar 21 Hydref 2013.

Gweithgareddau ar y Gweill: Sgwrs Genedlaethol

Bwriad Bil Cenedlaethau'r Dyfodol arfaethedig yw sefydlu Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy statudol annibynnol, y bydd ei rôl yn cynnwys cynnal sgyrsiau o'r fath bob 5 mlynedd a pharatoi adroddiad ar ran cenedlaethau'r dyfodol. Yna caiff yr Adroddiad ei ddefnyddio i archwilio blaenoriaethau a heriau sy'n wynebu cymunedau Cymru a llywio nodau hirdymor a dylanwadu ar bolisïau llywodraeth yn y dyfodol.

Mae'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi wedi gofyn i Peter Davies, Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy Cymru, i dreialu sgyrsiau cenedlaethol yng ngwanwyn 2014. Mae'r sgwrs beilot hon yn rhoi cyfle i brofi rôl bosibl Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol, a hefyd i brofi ffyrdd y gallwn ymgysylltu orau â chymunedau, busnes, a'r sector cyhoeddus wrth gyfrannu at gyflawni ein nodau hirdymor cyffredin.

Bydd yn cynnwys nifer o ymarferion ymgysylltu dwys dros dri mis. Mae'n debygol y bydd amrywiaeth o ddulliau y bydd angen eu defnyddio gydag ystod o randdeiliaid – o ieuenctid i grwpiau busnes.

Prif allbwn y prosiect fydd adroddiad i Lywodraeth Cymru, yn gosod barn rhwydweithiau rhanddeiliaid am "y Gymru rydym am ei heisiau". Bydd crynodeb gwerthuso o effeithiolrwydd y dulliau ymgysylltu amrywiol hefyd yn cael ei lunio.

Mae'r Comisiynydd, gyda chymorth Cynnal Cymru, yn bwriadu dylunio rhaglen ymgysylltu i gyflawni hyn ac un o nodau allweddol hyn fydd gweithio drwy nifer o 'Hyrwyddwyr y Dyfodol' (hynny yw, rhwydweithiau yn seiliedig ar leoliad a sector) ac arweinwyr yn y gymuned, gan gynnwys y sector busnes, i ledaenu'r sgwrs.

Mae'r Comisiynydd yn ceisio lansio'r Sgwrs Genedlaethol yn ffurfiol gyda'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi a Jonathon Porritt ar 18 Chwefror, ac erbyn hynny mae'n bwriadu bod wedi datblygu cyfres o becynnau cymorth i hwyluso'r rhaglen waith. Mae'r Gweinidog wedi gofyn bod swyddogion yn sicrhau bod ffigur arweiniol o'r byd masnachol/busnes yn cael ei wahodd i lansiad y Sgwrs Genedlaethol ochr yn ochr â Jonathon Porritt.

Cynllun Busnes Gweinidogion Cymru

(Traws-portffolio)
Adran Llywodraeth Leol a Chymunedau: Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd

Adran Addysg a Sgiliau: Blynyddoedd Cynnar

Adroddiad diweddaru blynyddol ar weithredu Cynllun Busnes
Dyddiad: Gorffennaf 2013 i fis Mehefin 2014

Swyddog Adrannol Arweiniol ar gyfer y Cynllun Busnes
Enw: Martin Swain /Karen Cornish

Manylion cyswllt: Martin.swain@wales.gsi.gov.uk / 029 2082 3782
Karen.cornish@wales.gsi.gov.uk / 029 2082 3424

Gweithgaredd

Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant: Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair

Lansiwyd Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Llywodraeth Cymru "Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair" ym mis Gorffennaf 2013, gan ddwyn ynghyd raglenni a pholisïau mewn ffordd gydgysylltiol a chydlynol i gefnogi plant a'u teuluoedd ar draws y blynyddoedd cynnar. Sefydlwyd Bwrdd Partneriaeth Blynyddoedd Cynnar i atgyfnerthu hyn drwy ddefnyddio gwybodaeth ar draws y sector blynyddoedd cynnar a gofal plant ynghylch ymarferoldeb datblygu a gweithredu'r rhaglenni hyn. Mae llawer o arfer da eisoes yn digwydd yng Nghymru. Ein nod yw i hyn fod y norm. Bydd y Bwrdd Partneriaeth, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau gofal plant a chwarae, iechyd, addysg a'r byd academaidd, yn ein helpu i nodi beth sy'n gweithio'n dda i wneud gwahaniaeth go iawn.

Mae'r Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yn amlygu pwysigrwydd ymgysylltu â'r gymuned fusnes a hyrwyddo addysg a gofal plant cynnar a pholisïau sy'n ystyriol o'r teulu fel rhan o'r strategaeth economaidd ehangach.

Fel rhan o gamau gweithredu parhaus o dan y Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, mae swyddogion Polisi Gofal Plant a Chwarae yn gweithio gyda swyddogion DEST a datblygu marchnad gofal plant drwy:

- gynyddu nifer y busnesau gofal plant drwy ddarparu cyngor, cymorth a chyllid yn enwedig ym meysydd lle mae bylchau mewn darpariaeth;
- darparu cyngor i fusnesau ar fuddion ac ymarferoldeb mabwysiadu polisïau sy'n gyfeillgar i deuluoedd ac ymchwilio mewn i faterion ynghylch annog busnesau sydd â llefydd gwag i gynnig hyn i ddarparwyr gofal plant;
- peilotio prosiect Cwmnïau Cymdeithasol Cymru, gan weithio ochr yn ochr â chwmnïau angor y sector preifat i ddarparu gofal plant a gofal cymdeithasol mwy cyffredinoler mwyn galluogi rhieni i gymryd rhan mewn hyfforddiant neu ddychwelyd i'r gweithle;
- rhoi cynlluniau ar waith i beilotio dau fusnes gofal plant mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf ac i weithio gyda chwmnïau angor i gefnogi gofal plant.

Adolygiad Annibynnol o Gofrestru, Rheoleiddio ac Arolygu Addysg Gynnar a Gofal Plant – Grŵp Gorchwyl a Gorffen

Mae camau gweithredu allweddol pellach o fewn y Cynllun yn cynnwys adolygiad o systemau cofrestru, rheoleiddio ac arolygu sydd ar waith ar gyfer y sector blynyddoedd cynnar a gofal plant a'u rôl wrth annog gwella ansawdd ar draws y sector. Mae'r Athro Karen Graham o Brifysgol Glyndŵr yn arwain Grŵp Gorchwyl a Gorffen annibynnol allanol a fydd yn cyflwyno adroddiad ym mis Mawrth 2014. Mae sefydliadau trydydd sector, academyddion blynyddoedd cynnar a phartneriaid lleol a rhanbarthol yn cynnwys y gofal plant ymbarél a sefydliadau chwarae a gynrychiolir ar y Grŵp hwn a bydd yn ymgysylltu'n llawn ag unrhyw ystyriaeth neu ymgynghoriad yn y dyfodol sy'n dilyn.

Bydd yr adolygiad yn:

- profi a yw systemau cyfredol ac arfaethedig ar gyfer cofrestru, rheoleiddio ac arolygu gofal plant, gan gynnwys Dechrau'n Deg a darpariaeth addysg gynnar, yn cefnogi a gwella ansawdd gofal plant ac addysg yn ddigonol ar draws y blynyddoedd cynnar;
- ystyried a oes angen newid y systemau cyfredol ar gyfer cofrestru, rheoleiddio ac arolygu gofal plant yn sgil newidiadau Diwygio Lles, yr ymgynghoriad gofal plant di-dreth HMRC a pholisi perthnasol eraill y DU sy'n effeithio ar addysg gynnar a gofal plant yng Nghymru;
- sicrhau bod deddfwriaeth cofrestru, rheoleiddio ac arolygu yn cefnogi'r nodau a'r canlyniadau a fwriedir a bennir yn *Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant;* a
- nodi, lle bo angen, argymhellion ar gyfer gwella a / neu newidiadau angenrheidiol i'r NMS a / neu ddeddfwriaeth.

Ni fydd yr adolygiad yn gwerthuso'r Arolygiaethau/awdurdodau lleol eu hunain, dim ond y systemau cofrestru, rheoleiddio ac arolygu sydd ar waith ar gyfer y sector blynyddoedd cynnar a gofal plant a'u rôl yn annog gwella ansawdd ar draws y sector.

Cynllun Gweithlu 10 Mlynedd y Blynyddoedd Cynnar

Mae'r Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yn cynnwys ymrwymiad i ymgynghori ar y dull cywir ar gyfer y gweithlu gofal plant yng Nghymru mewn cysylltiad â lefelau cymhwyster gofynnol, arweinyddiaeth raddedig, datblygiad proffesiynol parhaus a llwybrau gyrfaol.

I gyflawni'r ymrwymiad hwn, rydym yn datblygu cynllun ar gyfer gweithlu'r blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae ar gyfer y 10 mlynedd nesaf. Bydd y cynllun yn datblygu cynigion o dan dair thema:

1. Gwella sgiliau a safonau ar draws y gweithlu presennol;
2. Denu ymgeiswyr newydd o safon uchel;
3. Arweinyddiaeth.

Bydd ymgynghoriad ar gynigion yn cael ei gyhoeddi ym mis Medi 2014, ond rydym yn ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol ymlaen llaw i helpu i lunio a llywio ein meddwl.

Arolwg Gwaelodlin

Rydym yn ariannu Cyngor Gofal Cymru (CCW) i ddatblygu arolwg o weithlu'r blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae. Disgwylir i'r arolwg, a fydd yn cael ei anelu at reolwyr lleoliadau, ddechrau'r wythnos sy'n dechrau 3 Mawrth 2014. Bydd y darn hwn o waith ymchwil yn rhan o'r sail dystiolaeth ar gyfer Cynllun Gweithlu 10 Mlynedd.

Rydym wedi ymgysylltu â sefydliadau ymbarél gofal plant a chwarae wrth ddatblygu'r arolwg hwn, drwy Rwydwaith Datblygu Gweithle'r CCW. Mae'r grwpiau hyn wedi'u hymateb yn gadarnhaol i'r darn hwn o ymchwil ac wedi cynnig i hyrwyddo'r arolwg ymysg eu haelodau.

Grŵp Rhanddeiliaid Allanol

Rydym wrthi'n dwyn ynghyd grŵp cyfeirio o randdeiliaid allanol allweddol i brofi a datblygu ymhellach gynigion sy'n dod i'r amlwg o ran y Cynllun Gweithlu 10 Mlynedd. Mae CCW wedi cytuno i gadeirio'r grŵp hwn.

Yn ogystal â chynrychiolaeth gofal plant a chwarae'r trydydd sector, byddwn yn argymell bod buddiannau preifat/busnes masnachol hefyd yn cael eu cynrychioli drwy'r Ffederasiwn o Fusnesau Bach. Bydd y cyswllt hwn yn arbennig o bwysig wrth i ni ystyried sut y gallwn gefnogi lleoliadau blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae yn well i weithredu fel busnesau cynaliadwy.

Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd (ESF)

Mae sgiliau gweithlu'r blynyddoedd cynnar a gofal plant wedi'i nodi fel amcan penodol blaenoriaeth Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Ieuenctid y rhaglen ESF ddrafft ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd 2014-2020. Caiff rhaglen ESF ei datblygu yn gyfochrog â'r cynllun gweithle10 mlynedd a bydd yn cefnogi thema 1 (Gwella sgiliau a safonau ar draws y gweithlu presennol) ac yn cael effaith lai ar thema 3 (Arweinyddiaeth).

Bydd y rhaglen ESF yn cwmpasu gofal plant, addysg gynnar a chwarae ac yn canolbwyntio ar wella ansawdd cyffredinol y gweithlu presennol drwy wella sgiliau gweithwyr o fewn y sector.

Bydd y grŵp rhanddeiliaid allanol yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu a phrofi cynigion sy'n dod i'r amlwg o ran defnyddio cronfa'r ESF. Byddwn yn ymgynghori ar gynigion a ffafrir ar y cyd â'r rhai a nodwyd i'w datblygu yng nghynllun y gweithle, ym mis Medi 2014.

Cynllun Busnes Gweinidogion Cymru

Is-adran Llywodraeth Leol a Chymunedau
Adroddiad diweddaru blynyddol ar weithredu'r Cynllun Busnes
Dyddiad: 1 Ebrill 2013 i 31 Mawrth 2014

Swyddog Adrannol arweiniol ar gyfer y Cynllun Busnes

Enw: Lisa James
Manylion cyswllt: 02920 825980

Gweithgaredd

Mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu'r Swyddfa Gwell Rheoleiddio Leol a'i holynydd, y Swyddfa Rheoliadau Gwell (BRDO) i ddarparu rhaglen waith yng Nghymru ers 2009.

Ar gyfer 2013-14, darparodd Llywodraeth Cymru arian o £200k i'r BRDO. Diben yr arian yw i BRDO gyflawni swyddogaethau i helpu i symleiddio'r system reoliadol; ysgogi gwelliannau rheoliadol sy'n cefnogi twf; darparu ymgysylltiad busnes fforwm wrth wraidd y system reoliadol a rhoi cyngor ar gyflawni rheoliadol o fewn Llywodraeth ganolog.

Yn 2013-14, y blaenoriaethau ar gyfer BRDO oedd canolbwyntio ar archwilio dulliau lleol ar gyfer rheoleiddio busnes sy'n cefnogi twf – bydd hyn yn ceisio datblygu perthnasau rhwng rheolyddion a busnesau yn lleol sy'n helpu busnesau i gydymffurfio drwy wneud y mwyaf o gefnogaeth a lleihau baich. Mae BRDO hefyd yn ceisio cyflwyno Cod Cydymffurfio Rheolyddion diwygiedig a'i hyrwyddo gyda rheolyddion a busnesau – bydd yn rhoi sail glir ar gyfer sut y dylai rheolyddion gyflawni eu gweithgareddau mewn ffordd sy'n helpu busnesau i gydymffurfio a thyfu.

Nodwch ar gyfer pob ffurf ar ymgysylltu/gweithgaredd:

- Cefnogi rhaglen waith Llywodraeth Cymru ar ddadreoleiddio ffermio a gweithredu argymhellion yr adroddiad Hwyluso'r Drefn, a mynychu cyfarfodydd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Arolygon a Chofnodion Hwyluso'r Drefn.

- Ymgysylltu ag awdurdodau lleol Cymru a rheolyddion cenedlaethol mewn dulliau i gyflawni gwell rheoleiddio busnes lleol.

- Hwyluso'r gwaith o rannu arfer da a dysgu mewn cydweithrediad â fforwm Rheolyddion Cymru sy'n uwch grŵp o reoleiddwyr cenedlaethol a lleol yng Nghymru

- Mae'r **cerrig milltir** yn cynnwys cefnogi'r gwaith o lunio taflen i ffermwyr yn egluro pwy sy'n eu rheoleiddio; – gyda chymorth BRDO cafodd adnodd yn egluro sut i baratoi ar gyfer arolygon i'w dosbarthu i bob ffarmwr yng Nghymru ei lansio yn Ffair Aeaf RWS gan y Gweinidog Adnoddau Dynol ar 2 Rhagfyr 2013.

Sefydlu sail dystiolaeth canfyddiadau busnes ar faterion rheoliadol ac ymddygiad yn gysylltiad â gweithgarwch ymgysylltu i gefnogi gwasanaeth rheoliadol cydweithio a ddarperir gan Gyngor Dinas Caerdydd, Bro Morgannwg a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr; Er bod BRDO wedi gwneud y gwaith paratoi i ddatblygu'r prosiect hwn, mae manylion ffurfiol y trefniadau cydweithio y tu ôl iddi o ran atal cynnydd pellach. Felly mae BRDO wrthi'n gweithio gyda Sir Ddinbych i'w helpu i ddatblygu dull a rennir i ymgysylltiad busnes ar draws y cyngor.

Trefnu cyfarfod penodol o Fforwm Rheolyddion Cymru, a fydd yn canolbwyntio ar ymgysylltiad busnes. Bydd cyfarfod y fforwm ar 18 Chwefror 2014 yn cynnwys sesiwn i rannu profiad rheoleiddio busnes gyda Rheolyddion Cenedlaethol a Lleol ac arweinwyr polisi Llywodraeth Cymru gyda'r bwriad i nodi themâu a chyfleoedd allweddol.

Gweithgareddau ar y gweill

Bydd BRDO yn comisiynu'r arolwg canfyddiadau busnes nesaf yn ystod 2013-14 a'u nod yw i elfen yr arolwg gael ei chwblhau erbyn mis Mawrth 2014 gan gyflwyno adroddiad ar ddechrau blwyddyn ariannol 2014-15. Mae'r arolwg yn un sydd ledled y DU ac yn cynnwys hwb i Gymru er mwyn caniatáu ar gyfer dadansoddiad is-grŵp. Bydd proffil o fusnesau a samplwyd yn cael ei ddewis i gynrychioli holl fusnesau'r DU.

Cynllun Busnes Gweinidogion Cymru

Llywodraeth Leol a Chymunedau: Is-adran Diwygio Gwasanaeth Cyhoeddus

Adroddiad diweddaru blynyddol ar weithredu Cynllun Busnes
Dyddiad: Ionawr 2013 i Ionawr 2014

Swyddog Adrannol Arweiniol ar gyfer y cynllun Busnes
Enw: Piers Bisson

Gweithgaredd
1. Proses ddeddfwriaethol

Bil Gwasanaethau Cyhoeddus (Gweithlu) (Cymru) Drafft – cynrychiolaeth EST ar fwrdd y prosiect. Cynhelir cyfarfodydd misol.

2. Datblygiad polisi

Mae'r isadran yn cynnal ymgysylltiad rhanddeiliaid rheolaidd gyda phartneriaid cymdeithasol a chynrychiolwyr o'r sector busnes a fydd yn caniatáu iddynt fwydo i mewn i ymgysylltiad cynnar ar yr Agenda Diwygio Gwasanaeth Cyhoeddus Strategol. Cynhelir hyn drwy amrywiaeth o ddulliau gan gynnwys cyfarfodydd ffurfiol, fforymau, grwpiau gorchwyl a gorffen, er enghraifft Grŵp Arweinyddiaeth Gwasanaeth Cyhoeddus a chyfarfodydd Cyngor Partneriaeth Cymru sy'n cynnwys cynrychiolwyr partner cymdeithasol, er nad oes cynrychiolaethau cymunedol busnes penodol ar y grwpiau hyn.

Un o brif ddatblygiadau eleni fu'r Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaeth Cyhoeddus. Mae Juliet Luporini yn cynrychioli'r gymuned fusnes ar y Comisiwn. Mae'r Comisiwn wedi cael tystiolaeth lafar ac ysgrifenedig gan amrywiaeth o bartneriaid cymdeithasol a chynrychiolwyr busnes. Yn ogystal â sesiynau casglu tystiolaeth ffurfiol, cynhaliodd y Comisiwn nifer o gyfarfodydd cyhoeddus anffurfiol er mwyn gadael i'r cyhoedd ddarparu eu barn.

Ymgysylltiad gweinidogol rheolaidd gyda phartneriaid cymdeithasol drwy'r Cyngor Partneriaeth i Gymru a'r Cyngor Partneriaeth Gweithle (dim cynrychiolwyr cymunedol busnes ar y fforymau).

Mae'r gwaith o ddatblygu cynigion ar gyfer cymorth drwy'r Gronfa Cydweithio Rhanbarthol a Phrosiect ESFLSB hefyd wedi golygu ymgysylltu agos gyda phartneriaid cymdeithasol.

Cyfarfu'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth ag Emma Watkins (CBI) ym mis Tachwedd 2013.

Wrth ddatblygu cynigion ar gyfer y System Rheoli Perfformiad Sefydliadol (PAN) newydd, cafwyd ymgysylltu sylweddol ar draws partneriaid cymdeithasol a gwahoddwyd y gymuned fusnes i dendro ar gyfer y contract.

Mae'r Fenter Ymchwil Busnesau Bach (SBRI) yn caniatáu i gwmnïau ymchwil a datblygu Cymru wneud cais am fwy na £2.4 o gontractau ymchwil a datblygu i gefnogi'r gwaith o ddatblygu atebion arloesol ar gyfer cyrff y sector cyhoeddus. Cafodd peilot Cymru ei

lansio yn 13/14 a gwnaeth EST sylwadau i'r PSLG yn codi ymwybyddiaeth o'r peilot o annog y datblygiad o syniadau'r prosiect.

3. Ymgynghoriadau

Cafodd y Gweithlu Gwasanaeth Cyhoeddus: Ymgynghoriad ar ganllawiau a chyfeiriadau drafft, gan gynnwys Cod Ymarfer ar Faterion y Gweithlu, ei lansio ar 26 Medi 2013 a daeth i ben ar 20 Rhagfyr 2013. Cafodd cysylltiadau eu darparu i bartneriaid cymdeithasol a'r partneriaid busnes fel FSB, CBI, IOD, WTUC ac undebau llafur.

Mae partneriaid cymdeithasol wedi ymateb a bydd sgyrsiau parhaus ar y materion a godwyd yn parhau. Ni chafwyd ymateb gan y gymuned fusnes ar yr achlysur hwn.

Cafodd y Bil Gwasanaethau Cyhoeddus (Gweithlu) (Cymru) Drafft ei lansio ar 28 Tachwedd. Cafodd cysylltiadau eu darparu i bartneriaid cymdeithasol a'r partneriaid busnes fel FSB, CBI, IOD, WTUC ac undebau llafur. Y dyddiad cau ar gyfer ymatebwyr yw 21 Chwefror 2014.

<u>Gweithgareddau ar y gweill</u>

Ymgysylltiad pellach ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau y soniwyd amdanynt uchod, ynghyd â chyfarfodydd rheolaidd parhaus gyda phartneriaid cymdeithasol a chynrychiolwyr cymuned fusnes.